

# Adroddiad Blynyddol

## Comisiynydd Plant Cymru

### ar Ddatgeliadau Camarfer 2018-2019

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol "Gorchymyn Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ynghylch Datgelu Gwybodaeth) 2017".

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r gofynion ynghylch rhoi adroddiadau gan sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer. Ystyr personau rhagnodedig yw pobl a chyrrff y gallwch ddatgelu camarfer iddynt yn hytrach na'i ddatgelu i'ch cyflogwr.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn berson rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer yng nghyswllt buddiannau plant a gellir cysylltu â'r swyddfa ynghylch materion sy'n ymwneud â hawliau, lles a materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt, yng Nghymru.

Mae'r adroddiad canlynol yn darparu gwybodaeth am Ddatgelu Camarfer fel y'i disgrifiwyd yn strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol "*Whistleblowing — Prescribed Persons Guidance 2017*".

#### 1. Ystadegau

Nifer y datgeliadau cymwys a wnaed gan weithwyr yn ystod y deuddeg mis 1.4.17 — 31.3.18	1
Nifer y datgeliadau cymwys y penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach mewn perthynas â nhw	1

#### 2. Crynodeb o'r math o gamau a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt y person cymwys ac yng nghyswllt y datgeliad cymwys.

Codwyd pryderon mewn perthynas â darpariaeth gofal plant preswyl. Rhoddwyd cyngor i'r chwythwr chwiban am rôl y Comisiynydd Plant Cymru fel sefydliad rhagnodedig ar gyfer chwythu'r chwiban.

Fe wnaeth y chwythwr chwiban godi pryderon gyda pherchennog y cartref ond yn teimlo o dan fygythiad gyda'r ymateb a wnaethon dderbyn ac wedi penderfynu gadael y cwmni.

Reoleiddir gofal plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn dilyn datgeliadau a wnaed rhoddwyd caniatâd y chwythwr chwiban i'n swyddfa rhannu pryderon gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sydd wedi cytuno delio gyda materion fel rhan o'u rôl reoleiddiol. Roedd y chwythwr chwiban yn hapus gyda'r canlyniad.

#### 3. Crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu Comisiynydd Plant Cymru i berfformio'i swyddogaeth a chyflawni'i amcanion.

Ni chafwyd unrhyw effaith ar allu Comisiynydd Plant Cymru i gyflawni ei swyddogaethau a chwrdd â'i amcanion yn dilyn y datgeliad.

Nid oes effaith wedi bod gan na chymerwyd camau mewn perthynas â'r wybodaeth a ddatgelwyd.

#### 4. Esbonio swyddogaethau, amcanion a phwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (y "**Comisiynydd**") yn swydd a sefydlwyd yn unol â Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 ("**Deddf 2000**"). Mae pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn deillio o Ddeddf 2000.

Rhodddwyd rhagor o bwerau i'r Comisiynydd yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("**Rheoliadau 2001**"). Yn eu hanfod, mae'r rheoliadau hyn yn helaethu'r pwerau a'r swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd o dan Ddeddf 2000.

Nod pennaf Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles **plant**.

Gellir rhannu prif bwerau statudol y Comisiynydd rhwng dau bennawd:

- Pwerau i adolygu gweithgareddau cyrff cyhoeddus penodol;
- Pwerau i gynorthwyo **plant** unigol.

### **Pwerau Adolygu**

Mae gan y Comisiynydd y pŵer i wneud y canlynol:

- adolygu swyddogaethau neu weithrediad swyddogaethau gwahanol gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. ac
- adolygu a monitro'r trefniadau sydd ar waith gan gyrff cyhoeddus penodol i ddiogelu a hybu hawliau **plant** o ran y canlynol:
  - delio â chwynion neu sylwadau;
  - sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i **ddatgelu camarfer**;
  - cynrychioli barn a dymuniadau **plant**;
  - rhoi **cyngor a chymorth** i **blant**.

### **Pwerau Cynorthwyo**

Yng nghyswllt **plant** unigol, mae gan y Comisiynydd y pŵer i wneud y canlynol:

- archwilio achosion unigol o dan rai amgylchiadau;
- helpu **plentyn** o ran:
  - cwyno neu roi sylwadau ar y gwasanaethau y mae'r **plentyn** yn eu derbyn; neu
  - mewn **achosion** penodol (mae cyfyngiadau o ran **achosion cyfreithiol**).